



Cofnodion Grŵp Gweithredu Lleol

Cofnodion Grŵp Gweithredu Lleol Gwynedd - LEADER.

01.05.2019

Coleg Glynllifon

Yn Bresennol:

Cynrychiolaeth o'r Sector Fenter:		
Ian Nellist	(IN)	FSB
Dafydd Watts	(DW)	Ymddiriedolaeth Arbed Ynni
Gwenan Williams (Cadeirydd)	(GW)	Bwyty Lleu
Geraint Strello		BT
Alun Wyn Evans	(AW)	NFU/FUW
Menna Jones	(MJ)	Antur Waunfawr
Cynrychiolaeth o'r Sector Gwirfoddol:		
OG Thomas	(OG)	Un Llais Cymru
Arwel Jones	(AJ)	Partneriaeth Llyn
Carys Williams	(CW)	Mantell Gwynedd
David Ingham	(DI)	DIY Industries Cyf
Cynrychiolaeth o'r Sector Cyhoeddus:		
Iolyn Jones	(IJ)	Un Llais Cymru
Rhodri Owen	(RO)	Coleg Glynllifon
Cynrychiolaeth o Gyngor Gwynedd:		
Anwen Davies	(AD)	Arweinydd Rhaglenni Gwledig
Gareth Thomas	(GT)	Aelod Cabinet Datblygu'r Economi a Chymuned
Cynrychiolaeth o Fenter Môn/ Arloesi Gwyendd Wledig:		
Rachel Roberts	(RR)	
Eleth Peate	(EP)	
Aaron Warren	(AW)	
Rhian Hughes	(RH)	
Rhys Gwilym	(RG)	
Carwyn ap Myrddin	(CM)	
Dafydd Gruffydd	(DG)	





Cofnodion Grŵp Gweithredu Lleol

Pwynt	Manylion	Gweithred
Cyfarfod Grŵp Gweithredu Lleol		
1.	Cafodd croeso ei ymestyn i bawb i'r cyfarfod gan Gwenan Williams, cadeirydd y LAG i'r flwyddyn 2019. Estynodd GW groeso i ddau aelod newydd i'r LAG, Cyng. Gareth Thomas ac Anwen Davies.	
2.	Derbyniwyd ymddiheuriadau gan 6 aelod trwy law RG. <ul style="list-style-type: none"> • Ceri Cunnington (Antur Stiniog) • Gwion Llwyd (Dioni) • Einir Young (Prifysgol Bangor) • Craig ab Iago (Dyffryn Nantlle 2020) • Sian Tomos (GISDA) 	
3.	<u>Cofnodion Cyfarfod 20/02/2019</u> <u>Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod fel rhai cywir.</u> Nid oedd dim yn codi o'r cofnodion. Roedd AJ a IN yn eilio'r cymeradwyaeth.	
4.	<u>Diweddariad Marchnata</u> Rhoddodd EP ddiweddariad i'r aelodau o safbwynt marchnata AGW. Cyflwynwyd y platfformau cyfryngau cymdeithasol mae AGW yn ei ddefnyddio: <ul style="list-style-type: none"> • Facebook – Mae hwn yn fwy anffurfiol ac rydym yn tueddu i ddefnyddio iaith lafar. • Twitter – Mae hwn yn blatfform sy'n cael ei ddefnyddio yn bennaf i dderbyn newyddion ac i rhannu wybodaeth sydyn a chryno. • Instagram – Mae'r platform hwn yn fwy newydd i AGW, ond mae'n un sy'n gallu cyrraedd oedranau mwy ifanc. • Youtube – Mae hwn yn cael ei ddefnyddio fel archif i fideos AGW. Cyflwynwyd ystadegau am pob un o'r platfformau hefyd megis demograffeg, nifer o ddilynwyr, tudalennau eraill mae dilynwyr y neu dilyn ayyb. Eglurodd EP fod ein gwefannau cymdeithasol yn bwydo'r wasg draddodiadol, engrahifft o hyn yw'r prosiect Ceir Cymunedol Trydanol. Dangoswyd engreiffitiau o'r cyhoedd yn ymgyslltu efo tudalennau cyfryngau cymdeithasol e.e. sylwadau, 'likes', nifer o 'views' ar ein fideos. Hefyd atgoffodd EP yr aelodau ein bod yn dal i ddefnyddio ffyrdd fwy traddodiadol o farchnata fel Papurau Bro.	





Cofnodion Grwp Gweithredu Lleol

5.	<p><u>Gwerthusiad LEADER Gwynedd - Wavehill</u></p> <p>Eglurodd RR fod y gwerthusiad o LEADER Gwynedd wedi gwblhau nawr. Nododd RR fod Endaf o Wavehill wedi gorfod gohirio'r sesiwn gwerthusiad heddiw ac ein bod wrthi yn ail-drefnu cyfarfod arall efo fo ar gyfer dechrau mis Mehefin.</p> <p><u>Gwefan Rhwydwaith Gwledig Cymru</u></p> <p>Atgoffodd RR yr aelodau fod hi'n bosib i nhw fynd ar wefan Rhwydwaith Gwledig Cymru i gael gweld prosiectau LEADER siroedd Cymru, yn cynnwys LEADER Gwynedd. Eglurodd RR y byddem yn diweddarau'r wefan ar ol pob LAG fel bod pob un o brosiectau AGW yn cael ei arddangos ar y wefan.</p> <p>Awgrymodd DW ei bod hi'n syniad i ni edrych ar y wefan cyn cymeradwyo ceisiadau newydd i gael gweld os oes sir arall wedi rhedeg prosiect tebyg.</p> <p><u>Cynllun Arfor</u></p> <p>Rhoddodd AD gyflwyniad i'r aelodau o'r Cynllun yma sydd yn cael ei weithredu yng Ngwynedd, Môn a Chaerfyrddin. Mi fydd yn ceisio hybu'r iaith a'r economi, cynnig grantiau busnes, sefydlu gofod creu syniadau a helpu busnesau i ddefnyddio'r iaith Gymraeg a chreu mwy o swyddi.</p>	
6.	<p><u>Taith o amgylch Fferm Glynllifon</u></p> <p>Cyn cychwyn am y daith, rhoddodd RO gyflwyniad byr i'r aelodau o'r tri prosiect fydd yn cael eu ymweld â nhw sef Ffitbit Gwartheg, Pori Manwl a LoRaWAN. Eglurodd fod y tri prosiect yma yn brosiectau parhaus sydd yn dal i redeg ac yn ceisio datrys rhai o'r sialensau sydd yn wynebu y fferm.</p> <ul style="list-style-type: none">• LoRaWAN – Dangosodd RO lle yr oedd y sensor wedi cael ei osod yn y fferm a pha ddefnydd yr oeddent yn ei gael ohono e.e. giatiau, oergell.• Ffitbit Gwartheg – Aeth RO a'r aelodau i weld y gwartheg ac eglurodd fod yno rhai o'r gwartheg yn gwisgo pedometer er mwyn gweld faint maent yn cerdded pob diwrnod.• Pori Manwl – Dangosodd RO un o'r caeau lle maent yn treialu y prosiect Pori Manwl. <p>Nododd RO mai'r her nawr yw cael amser a person gyda'r arbenigedd i ddadansoddi y data ac ei ddatblygu yn y coleg.</p> <p>Eglurodd DG fod CG wedi cadarnhau nad oes rhaid i AGW gyfrannu at costau cyflogi Anwen Davies ac mae CG wedi argymhell i AGW benodi swyddog Digidol i gefnogi prosiectau LEADER.</p>	





Cofnodion Grwp Gweithredu Lleol

7.	<p><u>Academi Dronau</u></p> <p>Cafwyd sgwrs efo un o'r bobl ifanc y gwnaeth fynychu yr Academi Dronau, Owain Roberts, drost Skype.</p> <p>Bwriad y prosiect yma oedd i roi'r cyfle i bobl ifanc ardal Meirionnydd i ddysgu mwy am dronau a sut i'w defnyddio yn ddiogel. Roedd nifer o siaradwyr gwadd wedi mynychu'r sesiynau er mwyn dangos i'r bobl ifanc er mwyn dangos yr amrywiaeth o wahanol sectorau mae dronau yn cael eu defnyddio.</p> <p>Esboniodd Owain ei fod wedi mwynhau ei brofiad yn yr Academi Dronau yn enwedig y cyflwyniad gan Heddlu Gogledd Cymru ac ei fod wedi ei helpu i sylweddoli pa faes y mae'n gobeithio gweithio ynddo yn y dyfodol. Cafodd ddysgu am y gwahanol ddefnyddiau o ddronau a'r cyfleoedd gyrra sydd yn bodoli yn y maes.</p> <p>Roedd yn awyddus i gael mynychu mwy o brosiectau tebyg i hwn er mwyn datblygu ar y sgiliau â ddysgodd o yn yr Academi Dronau.</p>	
8.	<p><u>Amser i Fentro</u></p> <p>Daeth Eryl Williams, un o'r bobl y gymerodd rhan yn y prosiect Amser i Fentro, i'r cyfarfod er mwyn siarad am ei phrofiad hi o fod yn rhan o'r prosiect arbennig hwn. Bwriad y prosiect oedd i rhoi cyfle i bobl sydd mewn gwaith llawn amser i gael un diwrnod yr wythnos i ffwrdd er mwyn gweithio ar eu syniad busnes nhw. Un o ddiddordebau Eryl oedd crefft, ac roedd yn freuddwyd ganddi hi i ddechrau busnes yn y maes yma. Eglurodd fod y prosiect Amser i Fentro wedi ei helpu drwy gynnig hyfforddiant iddi a rhoi y cyfle iddi neilltuo mwy o amser i mewn i'w breuddwyd, a thrwy hyn mi wnaeth hi sefydlu ei chwmni 'Gyda Llaw'. Ers i'r prosiect ddod i ben, mae Eryl wedi bod yn brysur yn mynd i bartis penblwydd, parti plu a chynnal sesiynau crefft yn ogystal â gwerthu'r nwyddau mae hi'n gynhyrchu.</p>	
9.	<p><u>Teithio i Siop Griffiths, Penygroes</u></p> <p>Roedd rhan nesaf y cyfarfod yn cael ei gynnal yn Siop Griffiths.</p> <p>Cafwyd sgwrs gyda Ben Gregory drost amser cinio, lle y gwnaeth egluro sut mae Cronfa Peilota Gwynedd wedi helpu Siop Griffiths. Eglurodd eu bod wedi gwneud cais i'r gronfa adeg yma blwyddyn diwethaf er mwyn derbyn cymorth ariannol i brynu offer technolegol ar gyfer cynnal Ganolfan Ddigidol i bobl ifanc yr ardal. Roedd y cais yn llwyddiannus gan olygu fod y Ganolfan Ddigidol wedi gallu cynnal sesiynau creu fideos, podlediadau, blogio a codio gyda bobl ifanc ac maent wedi llwyddo i guro nifer o wobrau am rhai o'r ffilmiau maent wedi cynhyrchu.</p>	





Cofnodion Grwp Gweithredu Lleol

	Mae cymorth ariannol gan AGW wedi bod yn help mawr i'r fenter wrth iddynt ddatblygu eu rhaglen gweithgareddau a chreu partneriaethau gyda ysgolion a Prifysgol Bangor ar gyfer y dyfodol.	
Dyddiad Nesaf		
10.	Cadarnhodd RR dyddiad y cyfarfod LAG nesaf sef y 10fed o Orffennaf. Lleoliad i'w gadarnhau.	

